# YSGOL GYFUN GYMRAEG GLANTAF

# POLISI ASESU AC ADRODD

## (*Peilot Medi 2023*)

Derbyniwyd : Medi 2024

Adolygwyd : Medi 2024

# POLISI ASESU AC ADRODD

**Rhesymeg sy'n seiliedig ar ymchwil ar gyfer asesu ac adborth**

Defnyddiwyd dull yn seiliedig ar dystiolaeth i greu gweledigaeth yr ysgol ar gyfer cynnydd, asesu ac adborth. Sail rhesymeg yr ysgol yw'r egwyddorion ar gyfer asesu o fewn Cwricwlwm i Gymru: *"Pwrpas cyffredinol asesu yw cefnogi pob dysgwr i wneud cynnydd. Wrth gynllunio a darparu profiadau dysgu, dylai ysgolion ac ymarferwyr fod yn glir ynghylch rôl benodol pob asesiad sy'n cael ei gynnal a sut bydd y ddealltwriaeth a gafwyd o asesu yn cael ei defnyddio a pham." (1)*

At hynny, dylai *"trefniadau asesu roi blaenoriaeth i'w rôl ffurfiannol mewn addysgu a dysgu" (2)* er mwyn sicrhau bod asesiad yn cael effaith uniongyrchol ar gynnydd dysgwyr.

Rydym hefyd yn ymwybodol bod *"rhai mathau o farcio ... yn annhebygol o wella cynnydd disgyblion," (3)* e.e. sylwadau generig fel "da iawn" ac y dylai ein hathrawon, *"farcio llai o ran nifer y darnau gwaith, ond marcio'n well." (3)* Yn wir, *"Nodwyd mai marcio oedd y cyfrannwr unigol mwyaf at lwyth gwaith anghynaliadwy yn Her Llwyth Gwaith 2014 yr Adran Addysg" (3)* ac felly ein nod yw sicrhau bod yr holl weithgareddau asesu ac adborth yn cael effaith gadarnhaol, gan arwain at gynnydd mesuradwy i ddysgwyr heb greu llwyth gwaith diangen i athrawon.

**Asesu byw ac adborth**

Wrth weithredu model dysgu ac addysgu Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf, rydym am iddi fod yn eglur i athrawon a dysgwyr bod *"asesu yn broses barhaus sy'n rhan naturiol o ddysgu ac addysgu." (1)* Mae'r adborth yn gweithio'r ddwy ffordd: mae asesu ffurfiannol (e.e. trwy holi, defnyddio byrddau bach gwyn, arsylwi gwaith ymarferol, asesu digidol neu wirio gwaith ysgrifenedig disgyblion) yn rhoi gwybodaeth i athrawon, gan eu galluogi i nodi camsyniadau, asesu cynnydd a dealltwriaeth ac addasu eu haddysgu yn unol â hynny; gall adborth gan athrawon i ddisgyblion (e.e. trwy farcio byw, *pitstops* a gosod targedau) ddileu camsyniadau a darparu cyfleoedd i ddisgyblion dderbyn arweiniad rheolaidd, manwl gywir ar sut i wella eu gwaith, *"gan roi adborth a chefnogaeth effeithiol ac amserol i ddysgwyr sy'n canolbwyntio ar wella dysgu" (4)*, a thrwy hynny eu hyfforddi i lwyddo. Dylai athrawon hefyd ddefnyddio, *"cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion asesu eu dysgu eu hunain a'u cyfoedion lle bo hynny'n briodol" (5)*. Yn ôl ymchwil helaeth gan y Sefydliad Gwaddol Addysgol, gall adborth effeithiol arwain at hyd at 6 mis o gynnydd ychwanegol (6). Felly, rydym wedi seilio ein gweledigaeth asesu ac adborth yn Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf ar dair egwyddor allweddol:

1. Bod adborth o ansawdd uchel yn sylfaen i ddefnyddio asesu i yrru cynnydd, ond, er mwyn i adborth fod yn effeithiol, mae angen amser ar athrawon i'w roi ac mae angen amser ar ddisgyblion i weithredu arno.
2. Bod modd rhoi adborth i'r disgybl drwy ddulliau amrywiol - ar lafar, yn ddigidol, yn ysgrifenedig neu wedi ei recordio; gellir ei rannu gydag unigolion, grwpiau neu ddosbarthiadau cyfan.
3. Mae angen i adborth fod yn fanwl gywir, yn gryno ac yn benodol, gan ganolbwyntio ar y dasg, y testun a strategaethau dysgwyr annibynnol a'i gyflwyno mewn ffordd y gall disgyblion ddeall, derbyn a gweithredu arno.

Gan mai dim ond ar Dasgau Her Uchel neu dasgau'n arwain at Dasgau Her Uchel y disgwyliwn i athrawon gynnig adborth ysgrifenedig, rydym yn disgwyl adborth byw manwl a miniog o fewn gwersi. Gall adborth byw gael ei roi i unigolion, grwpiau neu'r dosbarth cyfan; fod ar lafar a/neu'n ysgrifenedig; dylai arwain at gynnydd ar unwaith i'r disgyblion.

**Asesu Crynodol**

Yn Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf, mae'r datblygiadau arloesol sy'n cael eu gweithredu wrth asesu yn seiliedig ar dair egwyddor allweddol:

1. Dylai data asesu a thracio cadarn fod yn ddibynadwy, yn gywir ac yn ddilys.
2. Dylid defnyddio tracio ac asesu yn bwrpasol ac ystyrlon i fonitro cynnydd pob dysgwr a sbarduno gwelliannau mewn safonau.
3. Bydd Tasgau Her Uchel yn caniatáu asesiad ac adborth mwy pwrpasol, gan arwain at gynnydd mewn ansawdd ac effeithiolrwydd asesiadau.

Mae'r egwyddorion hyn yn cyd-fynd â'r nodau asesu a nodir yn adroddiad Dyfodol Llwyddiannus, gan sicrhau bod ein dysgwyr yn cael y cyfle gorau posibl i gyflawni eu potensial. Wrth ddefnyddio data tracio ac asesu, rydym am sicrhau *"y dylai asesu hefyd alluogi ymarferwyr ac arweinwyr yn yr ysgol i ddeall a yw gwahanol grwpiau o ddysgwyr yn gwneud y cynnydd disgwyliedig" (1)*.

Rydym felly yn gweithredu cylch asesu Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf ers mis Medi 2023. I ddechrau, mae profion CAT4 yn cael eu cwblhau gan fl 7 a defnyddir hyn (ynghyd â chanlyniadau Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol bl 6) i gynhyrchu graddau TGAU disgwyliedig y cytunwyd arnynt gan aelodau'r Tîm Arwain ar gyfer pob dysgwr, yn ogystal â nodi dysgwyr sydd angen cefnogaeth ychwanegol. Cwblheir tracio ysgol gyfan dair gwaith y flwyddyn pan ddisgwylir i athrawon gofnodi cyrhaeddiad cyfredol y dysgwyr (yn seiliedig ar Gynlluniau Asesu Adrannol) mewn perthynas â'u Gradd Botensial TGAU ym ml 7+8, lefel bresennol y dysgwyr ym ml 9 a chyrhaeddiad cyfredol y dysgwyr ym ml 10-13, yn ogystal â chofnodi Agwedd at Ddysgu y disgyblion yn seiliedig ar feini prawf cytûn.

Mae Cynlluniau Asesu Adrannol wedi'u creu a chytuno arnynt, gydag o leiaf un Dasg Her Uchel yn cael ei chwblhau ym mhob cylch asesu, gydag adborth ysgrifenedig neu lafar llawn a manwl ar y Tasgau Her Uchel ar ffurf adborth unigol a/neu ddosbarth cyfan. Lle bo'n briodol yn CA4 a CA5, gall yr asesiadau hyn fod ar ffurf ffug-arholiadau a chael eu cwblhau mewn neuadd arholiad. Mae asesiadau ffurfiol fel hyn yn helpu i feithrin gwytnwch yn ein dysgwyr ac, wrth baratoi ar gyfer y rhain, maent yn dysgu'r sgiliau a'r strategaethau adolygu sydd eu hangen i ddod yn *"ddysgwyr uchelgeisiol, galluog... yn barod i ddysgu drwy gydol eu bywydau"* ac *"yn adeiladu eu lles meddyliol ac emosiynol drwy ddatblygu hyder [a] gwydnwch" (7).* Rhaid i Amser Gweithredu ar Adborth ddilyn pob Tasg Her Uchel i ganiatáu i ddysgwyr weithredu ar yr adborth a roddir. Sylweddolwn fod adborth ar lafar yn aml iawn yn cael gwell effaith nag adborth ysgrifenedig. Gellir marcio dysgu ar-lein ac annibynnol yn awtomatig neu drwy roi adborth dosbarth cyfan os yw hynny'n briodol. Ymddiriedwn yn ein hathrawon i benderfynu pa ddull o adborth ffurfiannol sydd fwyaf addas i symud y dysgwyr ymlaen yn eu dysgu.

Ar ôl pob cylch asesu, bydd y Tîm Arwain, Arweinwyr Cynnydd a Lles ac Arweinwyr Adran yn dadansoddi data asesu a thracio ar gyfer unigolion, grwpiau penodol a charfannau cyfain o ddysgwyr. Yna caiff cynlluniau gweithredu ôl-dracio eu llunio a'u cynnwys mewn cynlluniau datblygu adrannol a'u trafod mewn cyfarfodydd adran i godi safonau ymhellach, nodi disgyblion sy'n perfformio'n is na'r disgwyl a sicrhau bod camau penodol yn cael eu cymryd i fynd i'r afael â hyn

trwy gefnogaeth yn yr ystafell ddosbarth, ar ffurf cyswllt â'r cartref a/neu ymyraethau ychwanegol, neu sesiynau adolygu yn CA4 a 5.

**Prosesau sicrhau ansawdd a gwella**

Mae hyfforddiant HMS wedi canolbwyntio ar egwyddorion adborth effeithiol (8). Mae arsylwadau a thargedau rheoli perfformiad yn ogystal â'r rhaglen hyfforddi RhAG yn cynnwys ffocws ar gwestiynu, asesu ac adborth o fewn gwersi. Dylai gweithgareddau sicrhau ansawdd rheolaidd wedi'u hamserlennu (teithiau dysgu, llais y dysgwyr a chraffu ar waith) *"ystyried pa mor dda y mae adborth llafar ac ysgrifenedig yn helpu disgyblion i wybod pa mor dda y maent yn gwneud a beth sydd angen iddynt ei wneud i wella" (5)* a bwydo i'r cynlluniau gwella adrannol ac ysgol gyfan. Dylai cyfarfodydd rheolwyr llinell gyda'r Tîm Arwain gynnwys ffocysu ar ddadansoddi data yn ogystal â gweithgareddau sicrhau ansawdd.

**Cyfeiriadau**

1. Canllawiau Cwricwlwm i Gymru - asesu: https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales/designing-yourcurriculum/developing-a-vision-for-curriculum-design/#assessment
2. Dyfodol Llwyddiannus: https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-03/successful-futures.pdf
3. EEF: Gwelliant Amlwg? (2016): https://d2tic4wvo1iusb.cloudfront.net/documents/guidance/EEF_Marking_Review_April_2016.pd
4. Prosiect CAMAU: Fframweithiau Cynnydd a Chamau Cynnydd Papur Cefndir: https://papers.ssrn.com/sol3/papers.cfm?abstract_id=3806608
5. Canllawiau Estyn i Arolygwyr: Beth rydym yn ei arolygu: https://www.estyn.gov.wales/system/files/2021- 12/what%20we%20inspect_0.pdf
6. Pecyn Cymorth Addysgu a Dysgu Sefydliad Gwaddol Addysg: https://educationendowmentfoundation.org.uk/education-evidence/teaching-learning-toolkit/feedback
7. Canllawiau Cwricwlwm i Gymru – y pedwar diben: https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales/designingyour-curriculum/developing-a-vision-for-curriculum-design/#curriculum-design-and-the-four-purposes
8. Adroddiad arweiniad Adborth Athrawon i Wella Dysgu Disgyblion: https://d2tic4wvo1iusb.cloudfront.net/eefguidance-reports/feedback/Teacher_Feedback_to_Improve_Pupil_Learning.pdf

**ATODIAD 1**

| | Gosod Targedau | Tracio | Adrodd i Rieni |
|---|---|---|---|
| Bl 7 | Gosodir **Targedau TGAU MDaPh** drwy ddefnyddio<br>● Profion CAT4<br>● Profion Darllen a Rhif Cenedlaethol Bl 6<br>● Profion a Thasgau Her Uchel (MDaPh Iechyd a Lles + Celfyddydau Mynegiannol) | ● Byddwn yn tracio yn erbyn y **Targedau TGAU MDaP**h drwy ddefnyddio Tasgau Her Uchel yn y pynciau<br>● Dim ond yn fewnol y bydd y graddau hyn yn cael eu rhannu - ni fydd gradd yn ymddangos ar waith disgyblion | ● Byddwn yn adrodd i rieni am gynnydd y disgyblion yn erbyn y **Targedau TGAU MDaPh** ar ddiwedd y flwyddyn yn unig (+/=/-)<br>● Byddwn yn adrodd yn ôl ar Agwedd At Ddysgu (AADd) yn unig yn ystod y ddau adroddiad interim cyntaf |
| Bl 8 | Adolygir **Targedau TGAU MDaPh** ar ddechrau'r flwyddyn academaidd drwy ystyried:<br>● Targedau blaenorol<br>● Profion Darllen a Rhif Cenedlaethol Bl 7<br>● Perfformiad y disgybl mewn Tasgau Her Uchel yn ystod Bl 7 | ● Byddwn yn tracio yn erbyn y **Targedau TGAU MDaPh** drwy ddefnyddio Tasgau Her Uchel yn y pynciau<br>● Dim ond yn fewnol y bydd y graddau hyn yn cael eu rhannu - ni fydd gradd yn ymddangos ar waith disgyblion | ● Byddwn yn adrodd i rieni am gynnydd y disgyblion yn erbyn y **Targedau TGAU MDaPh** deirgwaith yn ystod y flwyddyn (+/=/-)<br>● Byddwn yn adrodd yn ôl ar AADd ym mhob adroddiad interim |
| Bl 9 (2023-4 yn unig) | Gosodir Lefelau Targed Diwedd CA3 drwy ddefnyddio<br>● Profion Darllen a Rhif Cenedlaethol Bl 8 | ● Byddwn yn tracio yn erbyn y Lefelau Targed drwy ddefnyddio Tasgau Her Uchel yn y pynciau<br>● Bydd y lefelau hyn yn cael eu rhannu ac yn ymddangos ar waith | ● Byddwn yn adrodd i rieni am gyrhaeddiad lefelau'r Cwricwlwm Cenedlaethol deirgwaith yn ystod y flwyddyn gan gyflwyno Lefelau Cyrhaeddiad cyflawn ym Mai 2024 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | • Lefel cyrhaeddiad y disgybl ar ddiwedd Bl 8 (Cofnod 3) | disgyblion | i'r Llywodraeth.<br>• Byddwn yn adrodd yn ôl ar AADd ym mhob adroddiad interim |
| Bl 9 (2024+) | Adolygir **Targedau TGAU MDaPh** ar ddechrau'r flwyddyn academaidd drwy ystyried:<br>• Targedau blaenorol<br>• Profion Darllen a Rhif Cenedlaethol Bl 8<br>• Perfformiad y disgybl mewn Tasgau Her Uchel yn y MDaPh yn ystod Bl 8 | • Byddwn yn tracio yn erbyn y **Targedau TGAU MDaPh** drwy ddefnyddio Tasgau Her Uchel yn y pynciau<br>• Dim ond yn fewnol y bydd y graddau hyn yn cael eu rhannu - ni fydd gradd yn ymddangos ar waith disgyblion | • Byddwn yn adrodd i rieni am gynnydd y disgyblion yn erbyn y **Targedau TGAU MDaPh** deirgwaith yn ystod y flwyddyn gan arddangos y Radd Darged a'r Radd Gyfredol<br>• Byddwn yn adrodd yn ôl ar AADd ym mhob adroddiad interim |
| Bl 10 | Gosodir **Targedau TGAU Pwnc Benodol** ar ddechrau'r flwyddyn academaidd drwy ddefnyddio:<br>• Targedau blaenorol (MDaPh)<br>• Profion Darllen a Rhif Cenedlaethol Bl 9<br>• Perfformiad y disgybl mewn Tasgau Her Uchel yn y pwnc yn ystod Bl 9 | • Byddwn yn tracio yn erbyn y **Targedau TGAU Pwnc Benodol** drwy ddefnyddio Tasgau Her Uchel / Asesiadau Rheoledig / Ffug-arholiadau yn y pynciau<br>• Bydd y graddau hyn yn cael eu rhannu yn achlysurol ar waith disgyblion | • Byddwn yn adrodd i rieni am gynnydd y disgyblion yn erbyn y **Targedau TGAU Pwnc Benodol** deirgwaith yn ystod y flwyddyn gan arddangos y Radd Darged a'r Radd Gyfredol<br>• Byddwn yn adrodd yn ôl ar AADd ym mhob adroddiad interim |
| Bl 11 | Adolygir **Targedau TGAU Pwnc Benodol** ar ddechrau'r flwyddyn academaidd drwy ddefnyddio:<br>• Targedau TGAU Pwnc Benodol blaenorol | • Byddwn yn tracio yn erbyn y **Targedau TGAU Pwnc Benodol** drwy ddefnyddio Tasgau Her Uchel / Asesiadau Rheoledig / Ffug-arholiadau / Arholiadau Allanol yn y pynciau | • Byddwn yn adrodd i rieni am gynnydd y disgyblion yn erbyn y **Targedau TGAU Pwnc Benodol** deirgwaith yn ystod y flwyddyn gan arddangos y Radd Darged a'r Radd Gyfredol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | • Perfformiad y disgybl mewn Tasgau Her Uchel / Asesiadau Rheoledig / Arholiadau Allanol yn y pwnc yn ystod Bl 10 | • Bydd y graddau hyn yn cael eu rhannu yn achlysurol ar waith disgyblion | • Byddwn yn adrodd yn ôl ar AADd ym mhob adroddiad interim |
| Bl 12 | Gosodir **Targedau UG Pwnc Benodol** ar ddechrau'r flwyddyn academaidd drwy ddefnyddio:<br>• Graddau TGAU<br>• Targedau ALPau | • Byddwn yn tracio yn erbyn y **Targedau UG Pwnc Benodol** drwy ddefnyddio Tasgau Her Uchel / Asesiadau Rheoledig / Ffug-arholiadau yn y pynciau<br>• Bydd y graddau hyn yn cael eu rhannu yn achlysurol ar waith disgyblion | • Byddwn yn adrodd i rieni am gynnydd y disgyblion yn erbyn y **Targedau UG Pwnc Benodol** deirgwaith yn ystod y flwyddyn gan arddangos y Radd Darged a'r Radd Gyfredol<br>• Byddwn yn adrodd yn ôl ar AADd ym mhob adroddiad interim |
| Bl 13 | Gosodir **Targedau Safon Uwch Pwnc Benodol** ar ddechrau'r flwyddyn academaidd drwy ddefnyddio:<br>• Graddau UG<br>• Targedau ALPau<br>• Perfformiad y disgybl mewn Tasgau Her Uchel / Asesiadau Rheoledig / Arholiadau Allanol yn y pwnc yn ystod Bl 12 | • Byddwn yn tracio yn erbyn y **Targedau Safon Uwch Pwnc Benodol** drwy ddefnyddio Tasgau Her Uchel / Asesiadau Rheoledig / Ffug-arholiadau / Arholiadau Allanol yn y pynciau<br>• Bydd y graddau hyn yn cael eu rhannu yn achlysurol ar waith disgyblion | • Byddwn yn adrodd i rieni am gynnydd y disgyblion yn erbyn y **Targedau Safon Uwch Pwnc Benodol** deirgwaith yn ystod y flwyddyn gan arddangos y Radd Darged a'r Radd Gyfredol<br>• Byddwn yn adrodd yn ôl ar AADd ym mhob adroddiad interim |